# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

## RHAN 2

DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

*Diwygio, diddymu a dirymu deddfwriaeth*

### 32 Diwygiadau a wneir i ddeddfwriaeth Cymru neu gan ddeddfwriaeth Cymru

(1) Pan fo deddfiad yn diwygio [[F1]Deddf gan Senedd Cymru] neu is-offeryn Cymreig drwy fewnosod neu amnewid geiriau neu ddeunydd arall, mae'r geiriau neu'r deunydd yn cael effaith fel rhan o'r Ddeddf honno neu'r offeryn hwnnw.

(2) Pan fo [[F1]Deddf gan Senedd Cymru] neu is-offeryn Cymreig yn diwygio deddfiad drwy fewnosod neu amnewid geiriau neu ddeunydd arall, mae'r geiriau neu'r deunydd yn cael effaith fel rhan o'r deddfiad hwnnw.

(3) Gweler hefyd adran 23ZA o Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30) ar gyfer darpariaeth ynghylch cymhwyso'r Ddeddf honno i ddeddfwriaeth uniongyrchol [[F2]a gymathwyd] sy'n cael ei diwygio gan [[F1]Ddeddf gan Senedd Cymru] neu is-offeryn Cymreig (neu gan ddeddfwriaeth benodol arall).

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Deddf wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(8)**

**F2** Geiriau yn a. 32(3) wedi eu hamnewid (1.1.2024) gan Retained EU Law (Revocation and Reform) Act 2023 (c. 28), a. 22(3), **Atod. 2 para. 9(3)(a)** (ynghyd ag a. 22(6)); O.S. 2023/1363, rhl. 3(e)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 32 mewn grym ar 11.9.2019 at ddibenion penodedig, gweler **a. 44(1)(c)**

**I2** A. 32 mewn grym ar 1.1.2020 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2019/1333, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, Adran 32.